# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

**ADRAN:** Cynhwysiant

**SWYDD:** Athro Arweiniol y Gymraeg - Uned Drochi Hwyr

**GRADD Y SWYDD:** Graddfa Cyflog Athrawon + TLR 2A

**YN ATEBOL I:** Cydlynydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

---

**DIBEN Y SWYDD:**

- I arwain a datblygu darpariaeth drochi iaith
- Cynllunio, addysgu ac asesu'r disgyblion wrth drochi'r disgyblion yn y Gymraeg;
- Cydweithio gydag athrawon eraill yn y broses o drochi ynghyd â datblygu cynlluniau perthnasol ar gyfer y disgyblion.
- Monitro, tracio a gwerthuso cynnydd disgyblion ac adrodd yn ôl i'r ysgolion gartref
- Mynychu cyfarfodydd rhieni a gwarchodwyr ar y cyd gyda'r ysgol gartref er mwyn adrodd ar gynnydd a chamau nesaf

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cyflawni'r dyletswyddau hynny sy'n gysylltiedig ag addysgu disgyblion fel â bennwyd yn Nogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol.
- Arwain a chynghori athrawon a staff eraill ar baratoi a datblygu cyrsiau astudio, deunyddiau addysgu, rhaglenni addysgu, dulliau addysgu a threfniadau asesu a bugeiliol.
- Rheoli staff ac adnoddau'r uned i'r bwriad hynny.
- Hyrwyddo gweledigaeth, nodau ac amcanion y ddarpariaeth Drochi Iaith
- Asesu, cofnodi ac adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion o ran sgiliau Cymraeg, anghenion personol a chymdeithasol disgyblion ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg yn drawsgwricwlaidd yn unol â'r Fframwaith Cwricwlwm i Gymru;
- Hyrwyddo cynnydd a lles cyffredinol y disgyblion;
- Cydweithio â'r ysgolion cynradd ac uwchradd i drefnu gweithgareddau pontio;
- Cydweithio ag adrannau Derbyn i Ysgolion a Thrafnidiaeth yr Awdurdod Lleol.
- Cydweithio â Chonsortiwm Canolbarth y De, awdurdodau lleol eraill a rhwydweithiau gyda'r nod o ddatblygu darpariaeth drochi iaith.

- Cyfathrebu ac ymgynghori â rhieni disgyblion;
- Gweithredu a chydymffurfio gyda'r broses Rheoli Perfformiad.
- Cyfranogi mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant pellach a datblygiad proffesiynol fel athro/athrawes gan gynnwys ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sy'n ceisio cwrdd ag anghenion a nodwyd mewn amcanion arfarnu neu mewn datganiadau arfarnu.
- Cynnal trefn a disgyblaeth ardderchog ymysg y disgyblion a diogelu eu hiechyd a'u diogelwch.
- Mynychu hyfforddiant Diogelu Plant

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm IAA a Diogelu.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

## Manyleb y Person

## Arweinydd Darpariaeth Trochi Hwyr

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Statws athro cymwysedig<br>• Cymhwyster perthnasol ychwanegol<br>• Ar gofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad llwyddiannus o ddysgu iaith fel athro/athrawes Dosbarth ysgol gynradd neu uwchradd<br>• Yn athro neu athrawes ragorol gydag iaith raenus sy'n dangos arfer dda ar bob achlysur<br>• Gwybodaeth a phrofiad llwyddiannus o arwain/rheoli un neu fwy o bynciau/meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm I Gymru<br>• Profiad blaenorol o addysgu / trochi disgyblion i'r Gymraeg<br>• Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol iawn gyda'r disgyblion, rhieni a chydweithwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig<br>• Dangos disgwyliadau uchel mewn perthynas â safonau cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gwybodaeth gadarn o ddulliau asesu ac addysgu a dysgu effeithiol.<br>• Yn cynnal safonau uchel o ymddygiad<br>• Ymrwymiad i adeiladu a chynnal perthynas effeithiol gydag eraill<br>• Ymrwymiad cadarn at fywyd, diwylliant ac addysg Gymraeg | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Y gallu arwain staff<br>• Y gallu i weithio'n hyblyg heb oruchwyliaeth.<br>• Y gallu i drefnu a blaenoriaethu gwaith yn effeithiol<br>• Sgiliau rhyngbersonol dda fel aelod o dîm ac wrth ddelio â materion sensitif.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddefnydd effeithiol o TGCh ar draws y cwricwlwm<br>• Y gallu i hyrwyddo amcanion y ddarpariaeth a chymell eraill i gyfrannu at safonau uchel<br>• Ymrwymiad i gyfle cyfartal a chreu ethos lle perchir yr unigolyn a lle gall pawb weithio'n effeithiol<br>• Trwydded yrru a defnydd o gar<br>• Mae'r gallu i sgwrsio â chwsmeriaid ac ymateb i ohebiaeth yn hyderus ac yn hawdd drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o ofynion y swydd hon. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |